Adran Gwaith
a Phensiynau

# Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chymorth i Gael Prydain i Weithio

Mawrth 2025

CP 1297W

# Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chymorth i Gael Prydain i Weithio

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2025

CP 1297

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/pathways-to-work-reforming-benefits-and-support-to-get-britain-working-green-paper

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn consultation.pathwaystowork@dwp.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5458-6
E03300618 03/25

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


Rhagair Gweinidogol 1

Crynodeb Gweithredol 9

# Rhagair Gweinidogol

## Liz Kendall, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Tyfu’r economi a gyrru safonau byw i fyny ledled y wlad yw brif genhadaeth y Llywodraeth hon yn ein Cynllun ar gyfer Newid. Mae marchnad lafur ffyniannus a chynhwysol – lle mae manteision gwaith da yn cael eu gwireddu gan gymaint o bobl â phosibl – yn allweddol i gyflawni’r nod hwnnw.

Mae tystiolaeth glir sy’n dangos bod gwaith da yn dda i iechyd ac yn chwarae rhan hanfodol mewn adferiad.[1] Mae gormod o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd eisiau gweithio ond gwrthodir y cymorth cywir iddynt wneud hynny. Mae mynd i’r afael â hyn yn ganolog i’n hymrwymiad i ledaenu cyfleoedd a gwella iechyd y genedl.

Rydym eisoes wedi dechrau’n gyflym ers yr etholiad i gael Prydain i weithio eto. Rydym yn buddsoddi bron i £26 biliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y System Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y gall pobl gael y driniaeth sydd ei hangen arnynt i ddychwelyd i’r gwaith yn hytrach na bod

1 Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006. Ar gael yn: Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK

yn sownd ar restrau aros, gan ddarparu dros ddwy filiwn o apwyntiadau ychwanegol saith mis cyn y disgwyl.

Rydym hefyd yn cynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac yn deddfu i Wneud i Waith Dalu a chryfhau amddiffyniadau hawliau gweithwyr. Rydym yn cyflawni'r diwygiadau mwyaf i gymorth cyflogaeth mewn cenhedlaeth i Gael Prydain i Weithio, gan gynnwys ailwampio Canolfannau Gwaith a chreu gwasanaeth swyddi a gyrfaoedd newydd sy'n canolbwyntio ar sgiliau a chefnogaeth tuag at ac i mewn i waith, yn hytrach na monitro a rheoli ceisiadau budd-daliadau. Rydym hefyd yn cyflwyno Gwarant Ieuenctid i sicrhau bod pob person ifanc naill ai'n dysgu neu'n ennill.

Ond mae angen i ni hefyd wynebu'r system les toredig rydym wedi'i hetifeddu sydd ddim bellach yn rhwyd ddiogelwch i'r rhai sydd angen cefnogaeth. Yn hytrach, mae'n cadw miliynau o bobl mewn cylch o ddiweithdra ac anweithgarwch, gan fethu â'r union bobl y mae i fod yno iddynt, yn ogystal â'r trethdalwyr sy'n talu'r bil.

Mae'r niferoedd yn llym ac yn siarad drostynt eu hunain.

**Mae un o bob 10 o bobl o oedran gweithio** ym Mhrydain bellach yn hawlio **o leiaf un** math o fudd-dal iechyd neu anabledd.[2] **Nid yw un o bob wyth o bobl**

---

2 Benefit Combinations: Official Statistics to February 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024. Ar gael yn: Benefit Combinations: Official Statistics to February 2024 – GOV.UK

**ifanc** (16-24 oed) mewn gwaith, addysg na hyfforddiant ar hyn o bryd.[3] Ac nid dyna'r cyfan.

- Pan ddaeth y Llywodraeth hon i rym fis Gorffennaf diwethaf, roedd mwy na **9.3 miliwn o** bobl allan o waith ac nid oeddent yn chwilio am gyflogaeth[4], **mwy na phoblogaeth Llundain**.
- **Roedd 2.8 miliwn o** bobl allan o waith ac yn cael eu dosbarthu fel sâl hirdymor[5] – **un o'r cyfraddau uchaf o unrhyw wlad y G7**.

---

3 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Young people not in education, employment or training (NEET) – Office for National Statistics

4 LFS: Economically Inactive: UK: All: Aged 16-64: Thousands: SA – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: LFS: Economically Inactive: UK: All: Aged 16-64: Thousands: SA – Office for National Statistics

5 INAC01 SA: Economic inactivity by reason (seasonally adjusted) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: INAC01 SA: Economic inactivity by reason (seasonally adjusted) – Office for National Statistics

- Mae nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau sy’n gysylltiedig ag iechyd heb ofyniad i weithio wedi cynyddu gan 800,000 ers 2019/20 - **cynnydd o 45%**.[6]

Mae’r DU yn allanolyn rhyngwladol pan ddaw i’r mater hwn.[7] Ni yw’r unig economi fawr nad yw ei chyfradd gyflogaeth wedi adfer o’r pandemig. Rydym hefyd yn gweld problem gynyddol lle mae pobl ifanc yn gadael yr ysgol a ddim yn mynd i addysg bellach, prentisiaeth, neu waith. Yn hytrach, maent wedi cael eu gadael gan y wladwriaeth a’u gadael ar ôl, ac fe’u collwyd i fywyd ar fudd-daliadau iechyd ac anabledd yn lle hynny. Nid yw’r methiannau hyn yn anochel nac yn dderbyniol.

Y tu ôl i bob un o’r niferoedd hyn mae rhywun nad yw ei botensial yn cael ewireddu, nad yw ei uchelgeisiau yn cael eu cyflawni ac nad yw wedi cael yr help llaw maen nhw’n ei haeddu i’w cael yn ôl i waith. Mae’r system bresennol yn mygu dyheadau ac yn cyfyngu ar uchelgais, ac nid yw hynny’n ddigon da – i unigolion na’n gwlad.

**Mae mynd i’r afael â’r system les hon sydd wedi torri yn gwneud synnwyr moesol. Mae’n synnwyr cyffredin hefyd.** Mae cyfanswm y gwariant ar fudd-

---

6 Universal Credit statistics, 29 April 2013 to 9 January 2025 – GOV.UK (www.gov.uk), cyhoeddwyd

7 Health-related benefit claims post-pandemic: UK trends and global context – Institute for Fiscal Studies (ifs.org.uk), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024. Ar gael yn: Health-related benefit claims post-pandemic : UK trends and global context | Institute for Fiscal Studies

daliadau analluogrwydd ac anabledd i oedolion oedran gweithio wedi cynyddu £20 biliwn ers y pandemig, cynnydd o bron i ddwy ran o dair. Ymhen pum mlynedd, rydym yn disgwyl gwario dros £70 biliwn.[8] Mae hynny'n fwy na **thraean o'n cyllideb bresennol yn y GIG** a mwy na **thair gwaith** yr hyn yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd ar blismona a chadw ein cymunedau'n ddiogel.

Ni allwn gyfiawnhau gwario cymaint ar system sy'n methu yn ei chyfanrwydd – methu pobl ifanc, methu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd sydd ei angen, methu trethdalwyr a gwrthod y cyfleoedd a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl iddynt fynd yn ôl i'r gwaith.

Am rhy hir, mae diwygio ystyrlon i'n system les wedi cael ei osgoi a'i oedi – gan effeithio ar gynhyrchiant, arafu twf ac yn y pen draw dal ein pobl a'n gwlad yn ôl. Dyna pam mae'r Llywodraeth hon yn camu i fyny i'w dyletswydd i drwsio hyn ac adfer ymddiriedaeth a thegwch yn y system.

Nid oes unrhyw ateb arbennig i'r broblem hon, sydd wedi cael ei adael i fadru ers mwy na degawd. Mae angen diwygio'r system – dyna beth rydyn ni'n canolbwyntio arno.

Mae ein man cychwyn yn syml: ni ddylai unrhyw un gael ei golli i fywyd ar fudd-daliadau dim ond oherwydd bod

---

8 Outturn and Forecast tables: Autumn Statement 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Ar gael yn: outturn-and-forecast-tables-autumn-budget-2024.xlsx

ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd, yn enwedig pan fyddant yn gallu ac eisiau gweithio gyda'r cymorth cywir yn ei le. Mae angen i ni hefyd fod yn onest am y ffaith nad gadael rhywun i fod yn ddibynnol yn ariannol ar y wladwriaeth yw'r canlyniad gorau iddyn nhw.

Bydd yna bob amser bobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd difrifoldeb eu hanabledd neu gyflwr iechyd, ochr yn ochr â'r rhai a fydd yn gyfreithlon allan o waith am gyfnodau byr o amser. Bydd bob amser, a dylai bob amser fod, rhwyd ddiogelwch i'r rhai mewn angen gwirioneddol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddal y danadl ac ail-lunio system fudd-daliadau tuag at fod yn fwy rhagweithiol, mwy o blaid gwaith ac yn fwy cynaliadwy. Bydd ein diwygiadau yn cael eu hategu gan bum egwyddor glir:

- Atal pobl rhag syrthio i anweithgarwch economaidd hirdymor trwy ymyrraeth a chymorth cynnar.
- Adfer ymddiriedaeth a thegwch yn y system trwy drwsio'r broses asesu sydd wedi torri sy'n gyrru pobl i ddibynu ar les.
- Darparu cymorth cyflogaeth gwell sy'n fwy pwrpasol i gael mwy o bobl oddi ar les, i mewn i'r gwaith – ochr yn ochr â disgwyliad uwch i ymgysylltu â'r cymorth hwnnw.
- Sicrhau bod y system yn ariannol gynaliadwy i barhau i ddarparu ar gyfer y rhai sydd ei hangen fwyaf.

- Byddwn yn amddiffyn pobl anabl na allant ac na fyddant byth yn gallu gweithio a'u cefnogi i fyw gydag urddas.

Bydd ein dull bob amser yn cael ei danlinellu gan yr egwyddor sylfaenol o drin pobl gydag urddas a pharch, a byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl anabl a sefydliadau pobl anabl wrth i ni gyflwyno'r diwygiadau hyn, i sicrhau bod eu lleisiau yn siapio ein cynigion.

Byddwn yn cyflawni diwygio gyda phobl go iawn a lleisiau go iawn wrth wraidd y newidiadau – pobl sydd am rhy hir wedi cael eu 'llofnodi i ffwrdd' yn hytrach na'u 'llofnodi ymlaen' i raglenni i'w cefnogi gydag iechyd neu rwystrau eraill i gael swydd weddus.

Dyna pam y byddwn yn codi lwfans safonol y Credyd Cynhwysol ac yn darparu pecyn cymorth cyflogaeth, iechyd a sgiliau ychwanegol gwerth £1 biliwn i wneud y system o blaid gwaith a lleihau cymhellion gwrthnysig. Mae'r diwygiadau hyn yn hanfodol i gyflawni ein nod o ledaenu manteision gwaith da i gymaint o bobl â phosibl. Fodd bynnag, wrth wneud y newidiadau hanfodol hyn mae'n rhaid i ni hefyd adeiladu system fudd-daliadau sy'n fwy fforddiadwy, felly rydym wedi cymryd camau pendant nawr.

Mae'r Llywodraeth hon yn rhoi terfyn ar wleidyddiaeth sy'n trio datrys yn arwynebol a hel penawdau newyddion rhad, ac yn hytrach mae'n bwrw ymlaen â diwygiadau strwythurol sylfaenol i wneud newid ystyrlon a helpu pobl i wella eu bywydau.

Trwy ein diwygiadau, byddwn yn darparu system les sy’n addas ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn adeiladu system sy’n decach ac yn darparu cymorth hanfodol i’r rhai sydd ei hangen fwyaf, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i fyw gydag urddas ac annibyniaeth, wrth wneud yn siŵr bod disgwyl i bawb sy’n gallu gwireddu manteision gwaith wneud hynny.

# Crynodeb Gweithredol

1. Prif genhadaeth y Llywodraeth hon yw tyfu'r economi a chynyddu safonau byw ledled y wlad fel rhan o'n Cynllun ar gyfer Newid. Mae adeiladu marchnad lafur ffyniannus a chynhwysol – sy'n lledaenu manteision gwaith da i gymaint o bobl â phosibl – yn ganolog i gyflawni'r nod hwnnw. Mae hefyd yn hanfodol i gyflawni ein cenhadaeth i ledaenu cyfleoedd a gwella iechyd y genedl.

2. I lawer o bobl, mae gwaith yn ffynhonnell bwysig o bwrpas a pherthnasoedd yn eu bywydau. Mae hefyd yn lleihau'n sylweddol eu risg o dlodi a dyma'r ffordd orau o godi safonau byw. Mae manteision cyflogaeth hefyd yn mynd y tu hwnt i slip cyflog. Mae'r ymchwil yn glir: mae gwaith da yn dda i iechyd corfforol a meddyliol[9] a gall yr effaith negyddol ar eich iechyd o fod allan o waith fod yn sylweddol[10].

3. Canfu ein Harolwg Dyheadau Gwaith fod am lawer o bobl nad ydynt bellach yn gweithio, mae gwaith yn

---

9 Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006. Ar gael yn: Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK

10 Health Equity in England: The Marmot Review 10 years on – The Health Foundation (www.health.org.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Ar gael yn: the-marmot-review-10-years-on-full-report.pdf

rhywbeth maen nhw'n ei golli'n fawr ac yn anelu ato. Dywedodd un person: "Rwy'n casáu na allaf weithio. Roeddwn wrth fy modd â'm swydd... ac rydw i wrth fy modd yn gweithio gyda phobl, felly rwy'n ei golli mewn gwirionedd, ac rwy'n teimlo fel nad ydw i'n aelod gwerthfawr o'r gymdeithas os hoffech chi."[11] Ymhlith y rhai nad oeddent erioed wedi cael eu cyflogi, roedden nhw'n gweld gwaith yn ganolog i deimlo'n werthfawrogedig ac yn gysylltiedig â chymdeithas.

4. Mae llawer o bobl'n ysu am weithio ond maent yn cael eu gwrthod y cyfle hwnnw. Dylai pawb gael cyfleoedd a dewisiadau cyfartal i weithio ac elwa o bopeth y mae cyflogaeth yn ei gynnig. Dyna pam, fel rhan o'n Cynllun ar gyfer Newid, rydym wedi cymryd camau ers mis Gorffennaf 2024 i helpu pobl i fynd i mewn i'r gwaith ac i symud ymlaen yn y gwaith:

   - **Rhoi'r system iechyd a gofal yn ôl ar ei thraed**, gan fynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o uchel gyda bron i £26 biliwn o gyllid ychwanegol fel bod pobl yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt i fynd yn ôl i iechyd a dychwelyd i'r gwaith.

---

11 Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Available at: Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK

- **Gwneud i waith dalu** – cynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a chyflwyno ein Bil Hawliau Cyflogaeth i gryfhau hawliau gweithwyr a chefnogi pobl anabl i gael mynediad at addasiadau rhesymol a gweithio hyblyg.
- **Diwygio cymorth cyflogaeth i Gael Prydain i Weithio** – ailwampio Canolfannau Gwaith fel eu bod yn darparu'r cymorth cyflogaeth sydd ei hangen ar bobl i gael swydd a symud ymlaen yn eu gyrfa, cyflwyno Gwarant Ieuenctid o gymorth cyflogaeth, hyfforddiant neu brentisiaeth i bawb ifanc 18 i 21 oed, ac aduno cymorth gwaith, iechyd a sgiliau yn lleol i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd.
- **Gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr** i greu gweithleoedd iachach ac atal pobl rhag mynd yn sâl a syrthio allan o waith yn y lle cyntaf, gyda chyn-gadeirydd John Lewis, Syr Charlie Mayfield, yn arwain ein hadolygiad Cadw Prydain i Weithio.

# Yr her: system budd-daliadau sydd wedi torri sy'n gadael pobl i lawr

5. Ond mae'n rhaid i ni fynd ymhellach. Byddwn yn trwsio'r system budd-daliadau analluogrwydd ac anabledd sydd wedi torri. Mae'n gyrru i fyny anweithgarwch economaidd ac yn gyrru cyfleoedd i lawr. Mae'n methu pobl a'r wlad trwy gynhyrchu

canlyniadau cyflogaeth gwael, safonau byw isel a chostau uchel i'r pwrs cyhoeddus.

6. Yn benodol, mae'r Llywodraeth hon wedi etifeddu system fudd-daliadau sy'n:

- Gofyn i bobl ddangos eu hanalluogrwydd i weithio i gael mynediad at fudd-daliadau uwch, sydd wedyn yn golygu bod llawer yn poeni am geisio cyflogaeth oherwydd ofn eu colli.[12] Mae hyn oherwydd bod y system wedi'i hadeiladu o amgylch y rhaniad sefydlog "gallu-yn-erbyn-methu â gweithio" nad yw'n adlewyrchu'r amrywiaeth o swyddi, y realiti o gyflyrau iechyd amrywiol, neu'r potensial i bobl ehangu'r hyn y gallant ei wneud, gyda'r cymorth cywir.
- Cyfeirio pobl â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith i giw hir ar gyfer asesiad sydd nawr yn hen ffasiwn. Ar ôl cael eu barnu fel nad ydynt yn gallu gweithio, mae'r rhan fwyaf yn cael eu gadael – heb unrhyw gyswllt, dim disgwyliadau, a dim cymorth i helpu i symud yn agosach at y gwaith. Mae hyn yn eu gyrru ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur.

---

12 Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK

- Methu ag ymyrryd yn ddigon cynnar i atal pobl rhag colli cysylltiad â'r farchnad lafur ac yn colli cyfleoedd i gefnogi dychwelyd i'r gwaith.
- Gwthio pobl tuag at anweithgarwch economaidd oherwydd y rhaniad llym a deuaidd rhwng cyfraddau budd-daliadau a rheolau amodoldeb ar gyfer ceiswyr gwaith o'i gymharu â'r rhai ar elfen iechyd Credyd Cynhwysol (UC).
- Creu profiadau gwael ac ymddiriedaeth isel ymhlith llawer o bobl sy'n ei ddefnyddio[13], gyda phrosesau asesu hir a hen ffasiwn a all fod yn anodd i bobl eu llywio, gydag oedi a gormod o benderfyniadau o dan anghydfod.

7. Canlyniad y system doredig hon yw canlyniadau cyflogaeth gwael, gyda gormod o bobl yn gwynebu cyfyngiadau ar eu dewisiadau a'u cyfleoedd i wella eu bywydau.

8. Nid yw bron i dair miliwn o bobl yn gweithio neu'n chwilio am waith oherwydd salwch, cynnydd sylweddol o bron i 800,000 ers dechrau 2019.[14] Nid yw bron i filiwn neu un o bob wyth o bobl

---

13 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

14 INAC01 SA: Economic inactivity by reason (seasonally adjusted) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael ynINAC01 SA: Economic inactivity by reason (seasonally adjusted) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

ifanc (16-24 oed) mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[15], ac mae nifer y bobl ifanc (16-34 oed) sy'n economaidd anweithgar yn benodol oherwydd cyflwr iechyd meddwl wedi cynyddu dros chwarter yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig i 270,000.[16] Wrth i gyfraddau anweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig ag iechyd gynyddu, mae'r cynnydd wrth gau'r bwlch cyflogaeth anabl wedi stopio ar 28 pwynt canran.[17]

9. Mae effaith y system budd-daliadau hon sydd wedi torri wedi'i chwyddo gan gynnydd cyflym yn yr achosion o gyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd. Mae gan dros draean (36%) o'r boblogaeth oedran gweithio gyflwr iechyd hirdymor, o'i gymharu â 29% ddegawd yn ôl. Mae'r risg o anweithgarwch

---

15 Young people not in education, employment or training (NEET) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Young people not in education,employment or training (NEET) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

16 The employment of disabled people 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/the-employment-of-disabled-people-2024

17 A08: Labour market status of disabled people – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: A08: Labour market status of disabled people – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

economaidd yn cael ei gynyddu'n sylweddol gan gydafiachedd, gyda phedwar o bob pump o bobl sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor yn cael mwy nag un cyflwr iechyd. Mae bron i chwarter (23%) o'r boblogaeth oedran gweithio yn anabl. Roedd bron i 10 miliwn o oedolion anabl o oedran gweithio yn 2023/24, dros 40% yn fwy nag yn 2013/14.

10. Ar yr un pryd, bu newidiadau mawr hefyd yn natur cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd. Er enghraifft, roedd gan 25% o bobl anabl oedran gweithio gyflwr iechyd meddwl fel eu prif gyflwr yn 2023/24, i fyny o 18% 10 mlynedd ynghynt. Mae'r nifer ag anabledd wedi cynyddu, bron â dyblu o 11% i 20% ar gyfer pobl 25 i 34 oed rhwng 2013/14 a 2023/24, tra bod y cynnydd cyfatebol ar gyfer y rhai 50 i 64 oed o 26% i 30%.[18]

11. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau analluogrwydd ac anabledd, gyda chynnydd serth mewn dyfarniadau a hyd hawliadau cyfartalog hir. Mae dros bedair miliwn o bobl – un o bob 10 o'r boblogaeth oedran gweithio – bellach yn hawlio o leiaf un math o fudd-dal iechyd

---

18 The employment of disabled people 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/the-employment-of-disabled-people-2024

ac anabledd[19], a disgwylir i hyn barhau i gynyddu. Mae pobl sy'n cael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn llai tebygol o adael y budd-dal nawr na phan gafodd ei gyflwyno gyntaf.[20] Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn cael budd-daliadau iechyd ac anabledd am gyfnod hirach ac mae gan y rhai sy'n cael budd-daliadau anweithgar am gyfnodau hir lai o siawns o ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn llusgo'n sylweddol ar safonau byw ac mae'n brif sbardun tlodi.

12. Mae dirywiad iechyd y boblogaeth wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd ac anabledd. Mae rhestrau aros hir y GIG wedi effeithio ymhellach ar hyn. Mae'r rhain wedi arwain at bobl yn mynd heb eu trin am gyfnod hirach, gan leihau ymyriadau cynharach a allai fod wedi eu helpu i reoli eu cyflwr iechyd yn well, atal salwch tymor hwy a chefnogi ailintegreiddio mwy amserol yn ôl i'r gwaith. Fodd bynnag, mae'r cynnydd sylweddol mewn ceisiadau budd-daliadau yn fwy na'r cynnydd yn yr achosion cyffredinol o gyflyrau iechyd hunan-ddatganedig. Rhwng 2019/20 a 2023/24, cynyddodd nifer y bobl anabl o

---

19 Benefit Combinations: Official Statistics to February 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), cyhoeddwyd Awst 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/dwp-benefits-statistics-august- 2024/benefit-combinations-official-statistics-to-february-2024

20 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr 17%[21], ond cynyddodd y niferoedd sy'n cael budd-dal anabledd neu anabledd ddwywaith y swm hwnnw (34%).[22]

13. Mae'n amlwg felly bod strwythur y system budd-daliadau hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn ceisiadau am fudd-daliadau analluogrwydd ac anabledd. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn cysylltu'r "cynnydd ag ehangu amodoldeb a sancsiynu yn rhannau'r system les oedran gweithio nad ydynt yn ymwneud ag analluogrwydd."[23] Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi datgan y gallai "gostyngiadau incwm go iawn a achosir gan chwyddiant uchel dros y blynyddoedd diwethaf olygu bod gwerth uwch yn cael ei roi ar incwm ychwanegol, gan ysgogi mwy o

---

21 The employment of disabled people 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024. Ar gael yn: The employment of disabled people 2024 – GOV.UK

22 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

23 Welfare trends report – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllideb (obr.uk), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Ar gael yn: CP 1161 – Office for Budget Responsibility – Welfare trends report – October 2024

bobl i wneud cais am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd".[24]

14. Mae nifer y dyfarniadau penderfyniadau cychwynnol ceisiadau newydd PIP wedi codi o 13,000 y mis cyn y pandemig i 34,000 y mis nawr.[25] Bydd nifer y bobl o oedran gweithio sy'n cael PIP yn fwy na dyblu erbyn diwedd y degawd. Mae nifer y bobl ar yr elfen iechyd yn UC yn cynyddu dros 50% dros yr un cyfnod (o 1.9 miliwn yn 2019/20 i ragolwg o dair miliwn erbyn 2029/30).[26] Mae'r cynnydd hwn yn unig yn cyfateb i boblogaeth gyfan Birmingham.[27]

15. Nid yw'r tueddiadau hyn yn cynrychioli canlyniadau da i bobl - gyda llai nag un o bob 100 o'r rhai ar yr elfen iechyd yn UC yn mynd i mewn i gyflogaeth

---

24 Recent trends in and the outlook for health-related benefits – Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (ifs.org.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Ar gael yn: Recent trends in and the outlook for health-related benefits | Institute for Fiscal Studies

25 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

26 Benefit expenditure and caseload tables 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Ar gael yn: Benefit expenditure and caseload tables 2024 – GOV.UK

27 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

bob mis[28] a dim ond 17% o bobl sy'n cael PIP mewn gwaith.[29] Fel y soniwyd uchod, mae hyd hawlio cyfartalog yn hir. O gyfanswm y llwythi Achosion iechyd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a UC ym mis Awst 2024, mae un o bob pedwar (26%) wedi bod ar fudd-daliadau analluogrwydd ers dros 10 mlynedd.[30] Fodd bynnag, er bod bron i hanner y ddwy filiwn ar iechyd UC wedi bod ar y budd-dal ers llai na dwy flynedd, mae bron i hanner y rhai ar ESA ar y pryd wedi bod ar y budd-dal ers dros 10 mlynedd. Roedd un o bob chwech ar iechyd UC wedi symud i'r budd-dal hwnnw o ESA, gyda hyd cyfartalog ar draws y ddau fudd-dal o dros saith mlynedd. Roedd 55,000 o unigolion ar iechyd UC hefyd wedi bod ar ragflaenwyr ESA o'r blaen, Budd-dal Analluogrwydd (IB) neu Lwfans Anabledd Difrifol

---

28 INAC01 SA: Economic inactivity: People aged 16-64 by reason for inactivity (seasonally adjusted) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), a gyhoeddwyd 21 Ionawr 2025. Ar gael yn: INAC01 SA: Economic inactivity by reason (seasonally adjusted) – Office for National Statistics

29 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

30 Total durations on incapacity benefits for claimants on Universal Credit Health or Employment and Support Allowance – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Total durations on incapacity benefits for claimants on Universal Credit Health or Employment and Support Allowance – GOV.UK

(SDA), ac arhosodd ar fudd-daliadau analluogrwydd am dros 15 mlynedd.[31]

16. Ar ben hynny, nid yw'r tueddiadau hyn yn cynrychioli canlyniadau da nac yn ariannol gynaliadwy i'r wlad. Mae cyfanswm y gwariant ar fudd-daliadau analluogrwydd ac anabledd i oedolion o oedran gweithio wedi cynyddu £20 biliwn ers y pandemig, cynnydd o bron i ddwy ran o dair. Mewn pum mlynedd, rhagwelir y bydd gwariant dros £70 biliwn.[32] Mae hynny'n fwy na thraean o'n cyllideb bresennol y GIG a mwy na thair gwaith yr hyn yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd ar blismona a chadw ein cymunedau'n ddiogel.

17. Mae pob prif economi wedi gweld cynnydd mewn cyflyrau iechyd ac anabledd, hirdymor ond mae'r DU yn allanolyn rhyngwladol o ran yr effaith ar ei budd-daliadau. Yn ôl yr IFS, mae gwariant y DU ar fudd-daliadau anabledd wedi cynyddu dros 30% ers y pandemig, ac ar fudd-daliadau analluogrwydd gan dros 20%. Dros yr un cyfnod, ar draws 11 o wledydd tebyg, mae pob un ond un wedi gweld gwariant sefydlog neu ostyngedig ar eu budd-daliadau cyfatebol agosaf, gyda dim ond Denmarc

31 Gweler y Pecyn Tystiolaeth cysylltiedig

32 Outturn and Forecast tables: Autumn Statement 2024 – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Ar gael yn: outturn-and-forecast-tables-autumn-budget-2024.xlsx

yn gweld cynnydd sylweddol. Hyd yn oed wedyn, mae cynnydd Denmarc yn is na'r DU ar 13%.[33]

18. Mae gwariant ar fudd-daliadau anabledd ac analluogrwydd sy'n cynyddu'n gyflymach na'r gwariant cyhoeddus cyffredinol yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, o ystyried rheolau cyllidol y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys y GIG, gofal cymdeithasol, tai, trafnidiaeth, a'r heddlu - gwasanaethau rydyn ni i gyd yn dibynnu arnynt, ac y mae angen i bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd fyw bywydau annibynnol. Mae'r gyfradd cynnydd hefyd yn cyfyngu'r cwmpas i wrthdroi'r wasgfa ar nawdd cymdeithasol ar gyfer oedolion eraill o oedran gweithio a theuluoedd â phlant dros y 15 mlynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, mae gwariant ar nawdd cymdeithasol oedran gweithio wedi bod yn wastad i raddau helaeth fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP), ond mae gwariant ar fudd-daliadau analluogrwydd ac anabledd o oedran

---

33 Health-related benefit claims post-pandemic: UK trends and global context – Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (ifs.org.uk), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024. Ar gael yn: Health-related benefit claims post-pandemic : UK trends and global context | Institute for Fiscal Studies

gweithio wedi cynyddu o 1.1% yn 2007/08 i 1.8% o GDP yn 2024/25.[34]

19. Mae'r gyfradd cynnydd mewn gwariant yn ei wneud yn ofynnol i ni gymryd camau i sicrhau fforddiadwyedd y system yn y tymor byr, yn ogystal â diwygio mwy sylfaenol i'w rhoi ar sail gynaliadwy am y tymor hir – trwy wella iechyd y genedl, cael mwy o bobl i weithio a chanolbwyntio budd-daliadau iechyd ac anabledd ar y rhai sydd eu hangen mwyaf.

20. **Mae'r diwygiadau hyn yn hanfodol i gyflawni ein nod o ledaenu manteision gwaith da i gymaint o bobl â phosibl. Fodd bynnag, wrth wneud y newidiadau hanfodol hyn, mae angen i ni hefyd gymryd camau brys a phenderfynol nawr ac yn y dyfodol i wneud y system fudd-daliadau yn fforddiadwy.** Mae gweithredu wedi bod yn angenrheidiol i reoli cynnydd yn y dyfodol mewn gwariant budd-daliadau iechyd ac anabledd ac i alluogi ail-fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth.

21. **Rydym wedi cymryd camau i leihau'r bwlch rhwng gwariant ar fudd-daliadau anabledd a thueddiadau achosion anabledd**. Bydd PIP yn parhau i fod yn fudd-dal pwysig nad yw'n dibynnu ar brawf modd i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd

---

34 Ratchets, retrenchment and reform: The social security system since 2010 – Resolution Foundation (www.resolutionfoundation.org), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024. Ar gael yn: Ratchets, retrenchment and reform • Resolution Foundation

hirdymor. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd cynnydd mewn ceisiadau a gwariant yn gynaliadwy, gan ragori ar y twf mewn cyffredinrwydd anabledd. Er mwyn rheoli gwariant ar y bil lles yn well, byddwn yn gwneud newidiadau i PIP i'w ganolbwyntio mwy ar y rhai sydd ag anghenion uwch. Byddwn yn cyflwyno gofyniad cymhwysedd newydd, ychwanegol fel bod rhaid sgorio o leiaf pedwar pwynt ar un gweithgaredd bywyd bob dydd PIP i dderbyn elfen bywyd bob dydd o'r budd-dal. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy'n sgorio'r pwyntiau isaf ar bob un o'r gweithgareddau bywyd bob dydd PIP yn colli eu hawl yn y dyfodol. Ym Mhennod 2, rydym yn amlinellu ystyriaethau ar sut i gefnogi pobl yr effeithir arnynt gan y newidiadau hyn a byddwn yn ystyried sut y gellir cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o'r asesiad PIP.

22. Rhaid gwneud mwy i wneud y system budd-daliadau mor o blaid gwaith â phosibl i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Wrth gydnabod maint yr her hon, mae diwygio sylfaenol yn dechrau gyda gwrthodiad pendant o'r syniad tyngedfennol na all unrhyw beth newid, oherwydd:

- Er gwaethaf bod yn genedl hŷn sy’n fwy sâl, mae gennym fwy o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd mewn gwaith nag erioed o’r blaen.[35]
- Rydyn ni’n gwybod bod llawer o bobl eisiau gweithio. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai 200,000 o bobl ar fudd-daliadau analluogrwydd ac anabledd weithio nawr, gyda’r cymorth cywir ac yn y swydd iawn a bod dros filiwn yn credu y gallai gwaith fod yn bosibl yn y dyfodol pe bai eu hiechyd yn gwella.[36]
- Mae gwaith da yn dda i iechyd – iechyd corfforol a meddyliol, a gall gefnogi adferiad o salwch.[37]

---

35 A08: Labour market status of disabled people – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk), cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: A08: Labour market status of disabled people – Office for National Statistics

36 Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Work aspirations and support needs of health and disability customers: Interim findings – GOV.UK

37 Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006. Ar gael yn: Is work good for your health and well-being? An independent review – GOV.UK

- Mae’r potensial i waith fod yn hygyrch ac yn gynhwysol wedi gwella’n sylweddol, gyda datblygiadau mewn technoleg gynorthwyol, a’r defnydd ehangach o gymhorthion, offer ac addasiadau.
- Lle maent yn bodoli, mae arferion cyflogaeth modern, fel gweithio hyblyg, wedi agor llawer mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan.

23. Yn hanfodol, mae tystiolaeth gref bellach hefyd am y mathau o gymorth a all wella rhagolygon cyflogaeth pobl anabl a phobl â chyflwr iechyd.[38] [39] [40]

24. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd gwerthusiad rhaglen o’r enw Dewis Gwaith a ddarparodd gymorth cyflogaeth ddwys i bobl anabl. Cafodd y rhaglen effaith sylweddol a pharhaol ar ragolygon cyflogaeth pobl – ar ôl i wyth mlynedd fynd heibio, roedd cyfranogwyr 40% yn fwy tebygol o fod mewn gwaith (a 13% yn llai tebygol o fod yn cael budd-dal chwilio am waith

---

38 Work Choice impact evaluation – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025. Ar gael yn: Work Choice impact evaluation – GOV.UK

39 Health-led Employment Trials Evaluation – GOV.UK (www.gov.uk), cyhoeddwyd Ebrill 2023. Ar gael yn: Health-led Employment Trials Evaluation – GOV.UK

40 Work and Health Programme evaluation: synthesis report – GOV.UK (www.gov.uk), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023. Ar gael yn: Work and Health Programme evaluation: synthesis report – GOV.UK

neu incwm isel) na grŵp tebyg nad oedd yn cymryd rhan.[41]

